

Pwyllgor Cefnogi a Datblygu Aelodau

17 Ebrill 2024

Yn Bresennol: Mrs S Hoss (Cadeirydd)

Y Cyngorydd D Clements, Y Cyngorydd M James, Dr R Plummer,
Y Cyngorydd S Skyrme-Blackhall a'r Cyngorydd M Wiggins.

Hefyd yn bresennol: G Jones (Swyddog Gwasanaethau Democrataidd), T Jones (Prif Weithredwr) a C Llewellyn (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd).

(Cyfarfod Rhithiol: 2.00pm – 3:00pm)

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth Mrs J James, y Cyngorydd R Jordan a'r Cyngorydd A Wilcox.

2. Datgan Buddiannau

Gwnaeth Dr RM Plummer ddatganiad fel Uwch Aelod Annibynnol Llywodraeth Cymru ar Benodiadau Cyhoeddus ond arhosodd yn y cyfarfod a chymryd rhan lawn yn y trafodaethau.

3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 06 Rhagfyr 2023 i'w cadarnhau a'u dilysu.

Ar gynnig Dr RM Plummer, a eiliwyd gan y Cyngorydd S Skyrme-Blackhall, **PENDERFYNWYD** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 06 Rhagfyr 2023.

4. Log Gweithredu a Materion yn Codi

Nododd yr Aelodau y log gweithredu. Yn dilyn trafodaeth yn y cyfarfod diwethaf, gofynnodd y Cadeirydd i'r mater o Hyfforddiant gael ei gynnwys fel eitem reolaidd ar yr agenda mewn cyfarfodydd yn y dyfodol er mwyn rhoi cyfle i drafod elfennau o hyfforddiant megis pynciau a phresenoldeb. Nodwyd hyn gan y Swyddog.

Nodwyd.

5. Diweddariad ar Gefnogi a Datblygu Aelodau

Croesawodd y Cadeirydd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a gyflwynodd ddiweddariad ar faterion oedd yn ymwneud â Chefnogi a Datblygu Aelodau gan gynnwys Adolygiadau o Ddatblygiad Personol, y Cynllun Hyfforddiant, Fframwaith Hunanwerthuso Cefnogaeth i



Gynghorwyr Cymru, Sesiynau Hyfforddiant Llywodraeth Cymru a phresenoldeb Aelodau.

A) Adolygiadau o Ddatblygiad Personol

Cadarnhawyd, yn dilyn adborth gan yr Aelodau, y byddai sesiynau hyfforddiant ar dechnoleg gwybodaeth yn y dyfodol yn cael eu cynnal ar sail un-i-un.

B) Y Cynllun Hyfforddiant

Awgrymodd Aelod y dylid rhoi adborth i ddarparwyr hyfforddiant mewnol ac allanol yn y dyfodol gan fod lle bob amser i ddatblygu'r ddarpariaeth.

Cafwyd trafodaeth ynghylch presenoldeb Aelodau mewn sesiynau hyfforddiant ac a ellid gwneud unrhyw beth i annog gwell presenoldeb. Cytunwyd y gellid cynnwys manylion am y canlyniadau dysgu fel rhan o'r gwahoddiad i'r hyfforddiant i gymell Aelodau i fynychu.

C) Fframwaith Hunanwerthuso Cefnogaeth i Gynghorwyr Cymru

Cytunwyd bod y fframwaith yn cynnwys nifer o gwestiynau craff oedd yn berthnasol i'r Awdurdod. Cadarnhaodd y Swyddog y cysylltwyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i drafod creu dogfen debyg ar gyfer yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol.

D) Sesiynau Hyfforddiant Llywodraeth Cymru

Roedd yr Aelodau wedi rhoi adborth ynghylch hyfforddiant Llywodraeth Cymru, a nodwyd hyn gan y Swyddog i'w drosglwyddo i Lywodraeth Cymru.

Ar gynnig Dr R Plummer, a eiliwyd gan Mrs S Hoss, **PENDERFYNWYD:**

- i) cymeradwyo'r Cynllun Hyfforddiant i'r Aelodau 2024,
- ii) nodi gweddill yr adroddiad.

6. Diweddariad ar Seminar Aelodau Cymru 2024

Croesawodd y Cadeirydd y Prif Weithredwr a roddodd ddiweddariad llafar ar y trefniadau ar gyfer Seminar Aelodau Cymru 2024.

Roedd yr Aelodau yn flaenorol wedi awgrymu 'Pobl Ifanc' fel thema i'r Seminar. Fodd bynnag, penderfynodd y Swyddogion y gallai'r cyfryw thema fod yn heriol gan fod ymrwymadau'r bobl ifanc yn gwrthdaro. Cynigiwyd thema arall sef 'Parciau Cenedlaethol i Bawb?' gan y Prif Weithredwr a chyflwynwyd rhaglen ddrafft ar y thema hon i'r Aelodau. Arweiniodd y Prif Weithredwr yr Aelodau drwy'r rhaglen a gofynnodd am eu barn ar y gweithgareddau a'r pynciau a awgrymwyd i'w cynnwys. Ychwanegwyd y byddai gwahoddiad i'r Seminar yn cael ei estyn i Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio, Julie James AS.



Cafwyd trafodaeth ynghylch y thema arfaethedig a meysydd gwaith yr Awdurdod y gellid eu harddangos ar y thema er mwyn talu sylw i faterion a chynhwysiant ehangach. Cytunwyd y byddai'r thema yn cynnig cyfle i ddeall ymhellach yr heriau a wynebir gan unigolion a ffyrdd o wella hygyrchedd o fewn y Parciau.

Cynigiodd yr Aelodau nifer o awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau posibl eraill a Siaradwyr, a nodwyd pob un ohonynt gan y Swyddog.

Awgrymodd yr Aelodau cael sesiwn nofio môr fel gweithgaredd posibl ond oherwydd ystyriaethau iechyd a diogelwch, cadarnhawyd na fyddai'r gweithgaredd hwn yn cael ei amserlennu fel rhan o raglen y Seminar ac felly byddai angen i'r Aelodau nofio yn y môr yn eu hamser eu hunain ac ar risg eu hunain os y dymunent.

Cadarnhawyd y byddai angen dosbarthu rhaglen ddrafft cyn yr Haf. Gwahoddodd y Prif Weithredwr unrhyw awgrymiadau pellach ar gyfer y Seminar i'w hanfon ato drwy'r e-bost.

Nodwyd.

